

13/05/20



*Annwyl Riant / Warcheidwad / Ddisgybl,*

Rydym yn ddiolchgar iawn i bawb wnaeth ymateb i'r holiadur diweddar. Roedd yn hynod gadarnhaol, a braf oedd darllen eich bod yn hapus iawn gyda'r ffordd y mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth o gyfleoedd dysgu i'n disgyblion.

Cawsom amser byr iawn i baratoi ein platfform gwaith ar-lein ond rwy'n hynod falch o'r ffordd y mae'r staff addysgu yn darparu ar gyfer amgylchiadau'r **holl** ddisgyblion ac yn cynllunio a pharatoi tasgau a gweithgareddau bachog ac amrywiol. O'r cychwyn cyntaf, roeddem yn ymwybodol iawn nad oedd gan bob disgybl fynediad at ddyfeisiau fel gliniaduron a thabledi. Gellir cael mynediad i'r holl waith o 'Smart phone'. Mewn ymateb i'ch adborth, mae'r platfform dysgu yn parhau i esblygu a bydd hyn yn wir nes i'r ysgol ailagor. Bydd llawer wedi sylwi cyflwyniad Flipgrid i ganiatáu i'r disgyblion ryngweithio â'u hathrawon a'u cyd-ddisgyblion. Rydym ni wedi mwynhau edrych ar y clipiau fideo rydych chi wedi'u huwchlwytho yn fawr.

Yn ogystal, byddwch chi i gyd wedi siarad ag aelod o staff yn ystod yr wythnosau diwethaf ac yn amlwg mae'r galwadau hyn yn gyfle arall i chi ofyn am gyngor neu gefnogaeth. Cofiwch hefyd y gallwch gysylltu trwy <https://www.ysgolgymraegcwmbbran.co.uk/cy/contact/>. Byddwch yn derbyn ymateb prydlon naill ai trwy e-bost neu alwad ffôn. Byddwch hefyd wedi sylwi ar adran o'r enw 'Gwybodaeth Ychwanegol' ar y platfform dysgu, sy'n cynnwys adnoddau cyffredinol i'ch cefnogi yn ystod yr amser hwn.

Rydym yn gweithio ar y cyd â phum ysgol arall mewn ysgol Hwb, i ddarparu gofal plant i weithwyr allweddol.

Yn olaf, rydym yn parhau i annog pob un ohonoch i ddilyn cyngor y Llywodraeth i'ch cadw chi a'ch teulu yn ddiogel ac edrychwn ymlaen yn eiddgar at bryd y gallwn eich croesawu chi i gyd yn ôl.

*Dear Parent / Guardian / Pupil,*

We are very grateful to all those who replied to the questionnaire recently. It was extremely positive and informed us that you are very happy with the way the school is providing a variety of easily accessible learning opportunities for our pupils.

We were given a very short time to prepare our online working platform but I am extremely proud of the way the teaching staff accommodate the circumstances of **all** pupils and plan and prepare engaging and varied tasks and activities. From the onset, we were very conscious that not all pupils had access to devices such as laptops and tablets. All work can be accessed from a smart phone. In response to your feedback, the learning platform continues to evolve and this will be the case until the school reopens. Many will have seen the introduction of the Flipgrid to allow the pupils to interact with their teachers and their classmates. We have thoroughly enjoyed looking at the video clips you have uploaded.

In addition, you will all have spoken to a staff member during the last few weeks and obviously these calls are another opportunity for you to seek advice or support. Please also remember that you can make contact via <https://www.ysgolgymraegcwmbbran.co.uk/en/contact/>. You will receive a prompt response either by email or telephone call. You will also have noticed a section entitled 'Additional Information' on the learning platform which contains general resources to support you during this time.

We are working collaboratively with another five schools at a Hub school, providing child care for key workers.

Finally, we continue to urge you all to follow the Government advice to keep you and your family safe and we look forward eagerly to when we can welcome you all back.

*Yours sincerely,*

*Miss Evans and all the staff at Ysgol Gymraeg Cwmbrân*